



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

# Canllaw Cynllun Busnes Strategol

## Enw'r Busnes

Hyd y Cynllun (e.e. 2015-2018)

Paratowyd gan: [Enw]

Enw'r Busnes:

Dyddiad:





## Cynnwys

Cyflwyniad i'r templed: Cwblhau'r Cynllun Busnes .....	3
Beth mae'r canllaw hwn yn ei drafod? .....	3
Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn .....	3
Manylion busnes.....	4
Crynodeb Gweithredol.....	5
1. Cwmpas a Phwrpas Cynllun .....	6
2. Lle ydw i nawr? .....	7
2.1 Fferm a system fferm gyfredol.....	7
2.2 Perfformiad ariannol diweddar.....	10
2.2.1 Anghenion Arian Parod .....	11
2.2.2 Proffidioldeb .....	13
2.2.3 Mantolen a Llif Arian Parod .....	17
2.2.4 Rhoi trefn iechyd y busnes.....	20
2.2.5 PAC a chefnogaeth arall .....	21
2.3 Aseiad risg.....	22
3. I le yr hoffwn i fynd? .....	23
3.1 Nodau ac amcanion .....	23
3.2 Dadansoddiad o'r farchnad a chystadleuwyr .....	23
3.3 Dadansoddiad SWOT .....	24
4. Beth yw'r ffordd orau o gyrraedd yno? .....	25
4.1 Opsiwn 1 – Parhau gyda'r system bresennol.....	26
4.2 Cyllidebu'r dewisiadau eraill .....	29
4.2.1 Opsiwn 2 – Gwella'r system bresennol.....	30
4.2.2 Opsiwn 3 – Newid y system bresennol .....	31
4.2.3 Opsiwn 4 – Ehangu drwy brynu fferm gyfagos .....	33
4.3 Dewis yr opsiwn gorau .....	34
5. Sut i aros ar y trywydd iawn? .....	36
5.1 Cynlluniau gweithredu .....	36
5.2 Y gyllideb flynyddol .....	37



## Cyflwyniad i'r templed: Cwblhau'r Cynllun Busnes

### Beth mae'r canllaw hwn yn ei drafod?

Mae rheolaeth strategol yn hanfodol, ond yn cael ei anghofio gan nifer o ffermwyr yn aml gan fod gwell ganddynt ganolbwyntio ar reolaeth weithredol. O ganlyniad, mae ffermwyr yn aml yn cael eu dal yn bod yn effeithlon yn cyflawni'r pethau anghywir! Felly, dyna pam bod angen y canllaw Cynllunio Busnes Strategol hwn.

Mae rheolaeth strategol yn ystyried y penderfyniadau sy'n cael effaith sylweddol ar ddyfodol hir dymor busnes. Er enghraifft, er mwyn newid y cydbwysedd rhwng defaid a gwartheg; i brynu tir ychwanegol; i drosglwyddo'r fferm i'r genhedlaeth nesaf; i arallgyfeirio i faes storfa ddiwydiannol neu i osod boiler biomas.

Yn dilyn y penderfyniad ynglŷn â chyfeiriad mwy hir dymor y busnes, mae rheolaeth dactegol yn ymwneud â sicrhau fod y busnes yn dilyn y trywydd hwnnw. O ganlyniad, bydd y ffocws ar lefel dactegol ar addasiadau a wneir o fewn blwyddyn, megis; gwella cyflwr corff y famog i gynyddu canran ŵyna, gwella rheolaeth ar bori i gael mwy o litrau o laeth o borfeydd. Mae rheolaeth weithredol ar y llaw arall yn ymwneud â sicrhau fod gweithgareddau penodol yn cael eu cwblhau yn effeithlon (e.e. trefn godro, drenio ŵyn, ail-hadu porfa).

### Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn

Ystyriwch reolaeth strategol fel darllen map;

- Lle ydw i nawr?
- I le yr hoffwn fynd?
- Beth yw'r ffordd orau o gyrraedd yno?
- Sut ydw i'n aros ar y trywydd iawn?

Bydd pob cwestiwn yn cael ei drafod yn ei dro, ond mae rhyddid i chi fwrw golwg sydyn dros amrywiaeth o adrannau i gael syniad o'r broses gyfan o gynllunio a gweithredu newidiadau hir dymor yn eich busnes. Unwaith y bydd gennych ddealltwriaeth eang o'r hyn y mae'r llawlyfr yn ei drafod, mae'n well i chi gwblhau'r llawlyfr yn nhrefn synhwyrol y cwestiynau uchod.

Mae'n hawdd iawn cael eich rhwystro gan fanion wrth gynllunio'n strategol gan mai'r dyhead yw i'w "wneud yn gywir o'r cychwyn cyntaf". Mae'n well i gwblhau drafft yn sydyn, ei roi o'r neilltu am ddiwrnod neu ddau, ac yna dychwelyd ato i fireinio'r drafft hwnnw. Disgwyliwch gwblhau sawl drafft cyn i chi fod yn fodlon. Mae hyn oll yn rhan o'r broses gynllunio strategol.



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

## Manylion busnes

Enw'r busnes fferm:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

Statws cyfreithiol:

Cysylltiadau allweddol:

Enw:

Cyfeiriad (os yn wahanol i'r uchod):

Rhif ffôn:

Rhif symudol:

E-bost:



## Crynodeb Gweithredol

Cwblhewch y rhan hon olaf.

Defnyddiwch bwyntiau bwled i gadw'r grynoded yn gryno (dim mwy nag ychydig frawddegau i bob pwynt bwled).

- Pam eich bod yn ymgymryd â'r adroddiad.
- Trosolwg o'r fferm a'r system gyfredol, gan gynnwys unrhyw fentrau arallgyfeirio a gwaith oddi ar y fferm.
- Disgrifiwch safle traws-gydymffurfio'r fferm.
- Nodwch broffidioldeb diweddar a phrif ffactorau sy'n ei yrru.
- Nodwch werth cyfredol ar werthoedd marchnad realistig.
- Nodwch anghenion arian parod presennol.
- Nodwch y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) presennol, a'r BPS a ragwelir yn dilyn newid llwyr i daliadau'n seiliedig ar ardal, yn ogystal ag ymglymiad gyda chynlluniau grant eraill.
- Amlinellwch ganlyniadau posib (proffidioldeb, llif arian, risg, ayyb) parhau gyda'r system bresennol (Opsiwn 1).
- Amlinellwch ganlyniadau posib Opsiwn 2.
- Amlinellwch ganlyniadau posib ar gyfer opsiynau eraill (pwynt bwled ar gyfer pob un).
- Gorffennwch drwy nodi pa benderfyniad strategol a wnaed ac amlinelliad o gynllun gweithredu.



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

## 1. Cwmpas a Phwrpas Cynllun

Nodwch yn gryno pam fod yr adroddiad hwn yn cael ei ysgrifennu (e.e. cyfle i brynu'r fferm drws nesaf, meddwl am gynyddu'r fuches). Os yw'r adroddiad yn ymwneud â nifer o gwestiynau, defnyddiwch bwyntiau bwled i'ch cynorthwyo i gyrraedd y nod. Mae traean tudalen yn ddigon.



## 2. Lle ydw i nawr?

Fel darllen map, cyn y gallwch gynllunio llwybr i'ch cyrchfan, mae'n rhaid i chi fod yn siwr o'ch man cychwyn. Mae'r adran hon felly yn dangos i chi sut i adolygu eich busnes fferm bresennol mewn modd critigol, gan ddefnyddio dadansoddiad SWOT i drefnu eich syniadau. Mae SWOT yn golygu;

<b><u>S</u>trengths - Cryfderau (Mewnol)</b>	<b><u>W</u>eaknesses - Gwendidau (Mewnol)</b>
<b><u>O</u>pportunities - Cyfleoedd (Allanol)</b>	<b><u>T</u>hreats - Bygythiadau (Allanol)</b>

Mae adolygu eich cryfderau a'ch gwendidau yn cynnwys edrych yn fewnol i'ch busnes. Er enghraifft, ansawdd eich tir, capasiti eich storfa slyri. Mae llwyddiant eich busnes yn yr hir dymor yn cael ei gyflawni orau trwy adeiladu ar gryfderau a gwella, neu osgoi gwendidau.

Mewn cymhariaeth, mae ail ran dadansoddiad SWOT yn gwerthuso cyfleoedd a bygythiadau allanol sy'n bodoli. Mae ymwybyddiaeth o ffactorau megis technoleg newydd a diwygiad PAC yn bwysig wrth benderfynu ar ba gyfeiriad i fynd â'r busnes.

### 2.1 Fferm a system fferm gyfredol

Cwblhewch archwiliad o adnoddau a system eich fferm. Nid oes angen adroddiad hir-wyntog; dim ond ffigyrau allweddol, ac yn bwysicaf oll, eich barn ynglŷn ag os yw adnodd yn cyfyngu ar opsiwn posib ar gyfer gwella'r busnes, neu a yw'n cynnig cyfle.

Er enghraifft, gallai fferm laeth sy'n gobeithio ehangu gael ei rwystro gan nifer y ciwbiclau sydd ar gael. Neu, gallai hen goetir gael eu hadnewyddu trwy Glastir i fod o fudd i ôl troed carbon y fferm yn ogystal â'r economi Gymreig.

Cadwch at yr hyn sy'n berthnasol. Os yw'r peiriannau presennol yn ddigonol ar gyfer y system bresennol, nodwch hynny. Peidiwch â rhestru pob peiriant.



Yr adnodd pwysicaf ar y fferm yw'r ffermwr. Byddwch yn onest am eich nodweddion da a'r rhai sydd efallai ddim cystal. A fyddai'r hunan-asesiad hwn yn gyson gyda'r genhedlaeth iau (neu hŷn)?

<p><b>Tir</b></p> <p>Lleoliad Mynediad Ardal cyfan Ardal wedi'i addasu Ardal coetir Statws Ansawdd / LFA</p>	
<p><b>System</b></p> <p>Math o fferm (e.e. llaeth) Mentrau da byw Mentrau cnydau Porfeydd a phorthiant Cyfraddau stocio / cymhareb defaid a gwartheg Arallgyfeirio fferm Gwaith oddi ar y fferm</p>	
<p><b>Adeiladau</b></p> <p>Adeiladau da byw Storio cnydau gan gynnwys storfa Tyrau slyri, ayyb Buarthau</p>	
<p><b>Isadeiledd</b></p> <p>Ffensiau (a waliau) Llwybrau mewnol Ymdrin â stoc Dŵr Draeniad</p>	
<p><b>Peiriannau</b></p> <p>Parlwr odro Pympiau slyri, sgrafell, ayyb Sychwyr grawn Defnydd o gontractwyr Gweithgareddau a wneir gan y ffermwr</p>	





<p><b>Llafur</b></p> <p>Teulu Cyflogedig Achlysurol</p>	
<p><b>Perchnogaeth a Rheolaeth</b></p> <p>Strwythur masnachu (e.e. partneriaeth rhwng...) Cynllun olyniaeth mewn lle?</p>	
<p><b>Amgylchedd a Chadwraeth</b></p> <p>Nodweddion amgylcheddol a thirlun Cynlluniau amgylcheddol Rheoli gwastraff a llygredd Cadwraeth mwynau ac ynni Strategaethau rheoli bioamrywiaeth</p>	
<p><b>Meysydd eraill</b></p> <p>Iechyd a lles anifeiliaid Iechyd planhigion Newydd ddyfodiaid a merched Iechyd a Diogelwch</p>	



## 2.2 Perfformiad ariannol diweddar

Mae'r cyfrifon yn dangos mewn rhifau beth ddigwyddodd ar y fferm dros y blynyddoedd diwethaf. Y cam nesaf yw defnyddio'r cyfrifon hyn i gynorthwyo i ateb y cwestiynau canlynol:

- Pa mor broffidiol yw'r busnes (mewn perthynas ag anghenion ariannol)?
- Faint yw gwerth y busnes?
- Pa mor gryf yw'r llif arian?
- Pa mor dda yw'r busnes am ymateb i ffactorau annisgwyl?

Er bod cyfrifon yn ffynhonnell bwysig o wybodath ynglŷn â pha mor dda mae'r busnes yn perfformio, mae ychydig o bethau y dylech fod yn ymwybodol ohonynt:

- Peidiwch â chanolbwyntio ar flwyddyn unigol. Gallai perfformiad wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan dywydd anffafriol, cytundeb laeth anghywir, neu werthu ar yr amser anghywir. Felly edrychwch dros ychydig flynyddoedd i chwilio am dueddiadau.
- Nid yw'r fantolen yn adlewyrchu gwerth gwirioneddol gan nad yw gwerth asedau allweddol yn dangos ar lefel gwerth y farchnad bresennol. Er enghraifft, mae tir yn ymddangos fel cost wreiddiol, ac mae costau cynydau yn ymddangos yn nodweddiadol yn ôl cost cynhyrchu.
- Mae cyfrifon yn hanesyddol, ond yn sydyn i'w cwblhau. Yn aml, maent yn adlewyrchu perfformiad, prisiau a chostau o ddwy flynedd yn ôl.

Mae deall y berthynas rhwng yr elw, y fantolen a'r llif arian yn bwysig i unrhyw fusnes.



### 2.2.1 Anghenion Arian Parod

Cyn dadansoddi'r cyfrifon, mae'n ddefnyddiol i ofyn y canlynol fel man cychwyn: Pa lefel o elw sy'n ofynnol ar y busnes? Mae ateb y cwestiwn hwn yn golygu amcangyfrif anghenion gwariant personol a chyfalaf, a elwir yn "anghenion arian parod". Gan fod gwariant ar adeiladau a pheiriannau'n nodweddiadol yn golygu symiau mawr, gyda chyfnodau o flynyddoedd rhwng y gwariant, bydd angen i'r amcan bris fod yn gyfartalog dros nifer o flynyddoedd i sicrhau ffigwr blynyddol.

Bydd anghenion arian parod busnes fferm yn amrywio oherwydd;

- Nifer y partneriaid (teuluoedd).
- Math o fferm (e.e. llaeth, mynydd)
- Daliadaeth (tenant, perchen-feddiannydd).
- Maint (ha, trosiant).
- System (e.e. eang v dwys).
- Polisi peiriannau (defnydd o gontractwyr v chi eich hun).

Er enghraifft, gallai fferm laeth fawr gydag ychydig o bartneriaid fod ag anghenion arian parod dros £100,000; gallai fferm fynydd eang sy'n cael ei redeg gan dîm gŵr a gwraig fod yn llai na £40,000.

Mae amcangyfrif anghenion arian parod yn ddibynnol ar 'deimlad', felly peidiwch â bod yn rhy fanwl. Mae bron yn gywir yn well na bod yn anghywir yn llwyr! Cwblhewch y tabl isod gan gynnwys y golofn olaf i ddangos eich gwaith cyfrifo a'ch rhagdybiaethau.

	£	Rhagdybiaethau
<b>Tyniadau a threth*</b> Trethi personol a chyfalaf, ond nid TAW Pensiynau, yswiriant bywyd, gofal meddygol ayyb Cyfran breifat o oleuni, gwres, ffôn ayyb		Fel amcan eang £25,000 y teulu (gŵr a gwraig). Edrychwch ar y cyfrif cyfalaf am dyniadau. Gallant yn rhwydd fod yn lawer llai (ac yn cael ei ychwanegu ato gan waith oddi ar y fferm), ond ar ba lefel ddylai'r tyniadau fod i ennyn ddiddordeb y genhedlaeth nesaf i ffermio?
<b>Buddsoddiad mewn peiriannau</b> Mae peiriannau a cherbydau fferm yn cael eu prynu ar sail hurbwrcasu (HP) neu logi ar gytundeb, gan ei gwneud yn haws i amcangyfrif o ganlyniad, er bydd angen addasu os mai'r dewis gorau yw i brynu yn gyfan gwbl.		Bydd ffigwr dibrisiant peiriannau yn y cyfrif masnach yn rhoi syniad synhwyrol o faint mae fferm yn ei wario'n flynyddol ar beiriannau. Bydd unrhyw HP sy'n weddill yn cael ei ddangos yn y fantolen.



<p><b>Buddsoddiad mewn eiddo</b> Mae hyn yn cynnwys gwaith mawr megis parlwr godro, siediau, storfeydd silwair, storfeydd grawn a thyrrau slyri. Yn ogystal â phrynu'r tir. Yn cael ei gyflenwi fel arfer gan fenthyciadau banc. Gall ail-fuddsoddiad ar werthu'r tir ar gyfer datblygiad adeiladau fod yn eithriad.</p>		<p>Bydd unrhyw fenthyciadau sy'n weddill yn cael ei ddangos yn y fantolen. Bydd angen cymryd gofal wrth ddefnyddio ad-daliadau benthyciad i amcangyfrif anghenion ail-fuddsoddi, gan mai llog yw mwyafrif ad-daliad benthyciad yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae'n well fel arfer i roi cyfartaledd hyd oes y benthyciad. (e.e. £100,000 sy'n cael ei fenthyg dros gyfnod o 10 mlynedd gyfwerth â £10,000 yn y gofynion arian parod blynyddol)</p>
--	--	---

*\*Cymerir eu bod yn fasnachwr unigol neu'n bartneriaeth. Mewn cwmnïau ffermio, mae'r ffermwr yn nodweddiadol yn derbyn "cyflog" gan y cwmni, ac felly'n cael ei drin fel cost masnachol (nid personol).*



### 2.2.2 Proffidioldeb

Y cam nesaf yw i ddadansoddi'r cyfrifon i ganfod beth sy'n arwain proffidioldeb. Yn seiliedig ar y cyfrifon, crynhowch broffidioldeb diweddar i'r tabl isod i alluogi cymhariaeth rhwydd gyda meincnodau fferm gyfan ar gyfer ffermydd Cymru.

Diffiniad o'r termau allweddol a ddefnyddir:

- **Ardal effeithiol** = ardal gyfan – ardal sydd â ffyrdd, coetir, tir gwastraff ac adeiladau, yn ogystal â phorfa arw a nodir o ran porfa wedi'i wella.
- **Unedau Pori Da Byw Cyfartalog (GLU's)** = nifer cyfartalog y gwartheg, defaid a mathau eraill o stoc a gedwir dros y flwyddyn wedi eu trosi i Unedau Pori Da Byw yn seiliedig ar ofynion porthiant.
- **Cynnyrch Ilaeth blynyddol** = cyfanswm Ilaeth hylifol a gynhyrchir mewn blwyddyn fasnachu gan gynnwys amcangyfrif ar gyfer Ilaeth a roddir i'ch da byw eich hun.
- **Allbynnau menter** = gwerthiannau wedi'u haddasu ar gyfer newidiadau mewn gwerth heb gyfrif prynu da byw (ar gyfer mentrau da byw) ar gyfer pob menter (e.e. buches Ilaeth, diadell, haidd gaeaf, ayyb).
- **Incwm masnachu arall** = Cynllun Taliad Sylfaenol yn ogystal ag incwm amrywiol (e.e. Glastir, arallgyfeirio, hawliau tramwyfa).
- **Cyfanswm allbwn** = allbynnau menter + incwm masnachu arall.
- **Costau amrywiol** = costau mewnbynnau (wedi eu haddasu ar gyfer eich da byw) sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar allbwn menter (e.e. dwysfwyd wedi'i brynu, brasfwydydd, pori'r stoc oddi ar y fferm, milfeddygon a meddyginiaethau, hadau, gwrtait, chwistrellau a manion eraill fel tagiau defaid).
- **Cyfanswm elw gros** = allbwn + incwm masnachu arall – costau amrywiol.
- **Llafur** = yn ymdrin â'r holl gyflogau ar gyfer llafur a brynir i mewn, p'u ai yw'n cael ei gyflogi ar sail llawn neu ran amser.
- **Pŵer a pheiriannau** = atgyweirio peiriannau, olew a thanwydd, trydan a chyfran y busnes o danwydd domestig, contractio a llogi, cludiant, treth ac yswiriant cerbydau.
- **Gorbenion** = atgyweirio adeiladau, trethi, trethi cyngor, dŵr, yswiriant cyffredinol, ffioedd proffesiynol, swyddfa, ffôn, tanysgrifiadau cyffredinol yn ogystal â mân orbenion fel treuliau banc a dillad gwaith.
- **Dibrisio** = cyfran o'r gost neu werth peiriannau ac adeiladau a godir fel cost yn y cyfrif masnachu i wneud iawn am faint mae'r ased wedi "treulio" yn ystod y flwyddyn fasnach.



- **Rhent a llog** = rhentiau (ac eithrio pori oddi ar y fferm) yn ogystal â llog sy'n ddyledus ar gyfrifon banc, cytundebau HP a benthyciadau.
- **Cyfanswm costau sefydlog** = llafur + pŵer a pheiriannau + gorbenion + dibrisio + rhent & llog.
- **Elw (Net)** = cyfanswm elw gros – cyfanswm costau sefydlog.
- **Elw cyn dibrisiant** = elw gyda dibrisiant wedi ei ychwanegu yn ei ôl.
- **Anghenion arian parod** = gwariant personol a chyfalaf (e.e. ad-daliadau, peiriannau a brynwyd).
- **Gwarged (diffyg ariannol)** = elw cyn dibrisiant – anghenion arian parod.

Math o fferm	Gwartheg a defaid ucheldir			Dadansoddiad allbwn		I bob ha effeithiol		I bob Uned Pori Da Byw (GLU)		Per £	
Ardal cyfan	138ha										
Ardal effeithiol	135ha										
Unedau Pori Da Byw	150										
Cyfartalog	-										
Cynhyrchiant Llaeth blynyddol											
	BI1	BI2	BI3	Chi	Meincnod*	Chi	Meincnod*	Chi	Meincnod*	Chi	Meincnod*
	£			%		£/eff.ha		£/GLU			
<b>Allbynnau'r fenter</b>			100,000								
<b>Incwm masnach arall</b>			25,000								
<b>Cyfanswm yr allbwn</b>			125,000	100	100	926	1,509	833	1,035		
<b>Costau Amrywiol</b>			44,000	35	32	326	490	293	336		
<b>Cyfanswm Elw Gros</b>			81,000	65	68	600	1,019	540	699		
Llafur wedi'i dalu amdano			1,000	1	2	7	27	7	19		
Pŵer a Pheiriannau			24,750	20	11	183	162	165	111		
Gorbenion			12,500	10	9	93	130	83	89		
Dibrisio			18,750	15	11	139	168	125	115		
Rhent a llog			6,250	5	4	46	55	42	38		
<b>Cyfanswm Costau Sefydlog</b>			63,250	51	36	469	542	422	372		
<b>Elw Net</b>			17,750	14	32	131	477	118	327		
<b>Gan ychwanegu dibrisiant</b>			18,750								
<b>Elw Net cyn dibrisiant</b>			36,500								
<b>Anghenion arian parod</b>			45,000								
<b>Gwarged (diffyg ariannol)</b>			(8,500)								

\*Meincnodau wedi'u cyfrifo o draean uchaf Incwm Fferm Cymreig 2013/14.



Wrth ddadansoddi'r cyfrifon, dechreuwch gyda'r cwestiwn pwysig:

*“ Dros y blynyddoedd diwethaf, a yw'r elw cyn dibrisiant wedi bod yn ddigonol ar gyfer anghenion arian parod?”*

Os nad... pam? Ai:

- Elw gros isel?
- Costau sefydlog uchel?
- Y ddau?

Nid yw edrych ar ffigurau un flwyddyn yn debygol o egluro pam. Mae angen meincnod. Os yw'r busnes yn gwneud yn dda ac yn gadael gwarged ar ôl anghenion arian parod, mae'n dal yn bwysig i feincnodi i gadarnhau pam.

Er bod y ffocws isod ar feincnodi yn erbyn safonau'r diwydiant, cymhariaeth gyda pherfformiad y gorffennol yw'r lle mwyaf amlwg a'r lle hawsaf i ddechrau. A oedd y llynedd yn well gan fod lefelau pris llaeth yn gyffredinol yn uwch? A oedd gwerthiant ŵyn yn llai oherwydd tywydd gwael yn ystod tymor ŵyna yn effeithio ar nifer yr ŵyn?

Mae meincnodi yn erbyn mathau tebyg o ffermwyr yn dileu rhai o'r ffactorau sy'n achosi amrywiaeth rhwng blynyddoedd. Mae dadansoddiad allbwn, a elwir hefyd yn ddadansoddiad ratio neu proportional, yn boblogaidd gan ei fod yn galluogi cymhariaeth sydyn rhwng busnesau o faint gwahanol gyda nodweddion tir gwahanol. Yn yr achos uchod, er enghraifft, cadwodd y traean uchaf o ffermydd gwartheg a defaid ucheldir Cymru 32% o'u hallbwn fel elw, o'i gymharu â 14% i'r ffermwr yn yr enghraifft. Hynny yw,

$$\frac{\pounds 17,750 \times 100}{\pounds 125,000} = 14\%$$

Mae'n gweithio'n dda ar gyfer ffermydd llaeth, â'r a stoc sych lle mae ansawdd y tir yn gymharol gyson, ond gall effeithio'r ffigyrau'n sylweddol ar gyfer ffermydd Ardaloedd Llai Ffatriol (ALFf) eang gyda thir pori garw. Gall addasu tir pori o werth is i fod yn hectarau cyfwerth gwell fod yn wrthrychol iawn, sef y rheswm dros yr argymhelliad i ddefnyddio dadansoddiad allbwn yn y man cychwyn. Yn yr un modd, gall cymharu fferm i ffermydd eraill ar sail fesul litr i ffermydd llaeth, a fesul Uned Pori Da Byw (GLU) i ffermydd biff a defaid eich cynorthwyo i adnabod eich cryfderau a'ch gwendidau.

Ond byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio ffigyrau "fesul", boed hynny fesul ha, litr neu GLU. Gallech fod â pherfformiad gwych fesul anifail er enghraifft, ond os yw'r gyfradd stocio'n isel a'r ardal sy'n cael ei ffermio'n fychan, gallai'r lefel proffidioldeb fod yn isel o hyd. Felly, cadwch ffigyrau cyfanswm mewn cof.



**Dadansoddiad proffidioldeb - Sylwadau**

Prif syniad dadansoddiad fferm gyfan yw nodi'n gyflym yr hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn sydd ddim yn mynd cystal. Yn dilyn canfod fod proffidioldeb yn isel yn yr enghraifft uchod oherwydd dwysedd cynhyrchiant is, y cam nesaf yw mynd i'r afael â'r rhesymau pam. Golyga hyn ganfod Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs), gan gynnwys elw gros, ar gyfer prif fentrau'r fferm i'w gwirio yn erbyn safonau'r diwydiant. Gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol, dylai dadansoddiad o wraidd y broblem ddangos cryfderau a gwendidau yn gyflym.

Byddwch yn wylidwrus – gall gosod gormod o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol eich drysu. Hefyd, cofiwch nad yw Dangosyddion Perfformiad Allweddol technegol, fel cynnyrch llaeth, bob amser yn gyson gyda phroffidioldeb ar yr elw terfynol.

**Dadansoddiad proffidioldeb - Sylwadau**





### 2.2.3 Mantolen a Llif Arian Parod

Er y dylai'r rhwymedigaethau yn y fantolen a ddangosir yn y cyfrifon treth fod yn gywir, mae'r asedau gan amlaf yn cael eu hasesu yn uno â chost yn hytrach na gwerth presennol ar y farchnad. Felly, dylid cyfrifo "mantolen ffermwr", sy'n cynnwys pob ased yn unol â gwerth presennol y farchnad i roi gwerth net sy'n realistig. Os ydych yn ansicr o werth asedau, mae'n werth talu am werthusiad proffesiynol. Gweler mantolen enghreifftiol sy'n cynnwys cymarebau allweddol isod.



## MANTOLEN (seiliedig ar werth y Farchnad)

<b>ASEDAU</b>	<b>Fel ar dd/mm/yy</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	
Tir		1,002,535		
Adeiladau a Gosodiadau		56,000		
Peiriannau		95,000		
Da byw magu		120,000		
			1,273,535	<b>Asedau sefydlog</b>
Da byw masnachu		30,000		
Stôr / Cnydau tyfu		3,000		
Cnydau wedi'u trin		2,000		
Cnydau wedi'u storio		15,000		
Dyledwyr		5,000		
Arian yn y banc		0	5,000	<b>Asedau hylifol</b>
			55,000	<b>Asedau presennol</b>
			1,328,535	<b>CYFANSWM ASEDAU</b>
<b>CYFRIFOLDEBAU</b>				
Credydwyr		15,000		
Gorddrafft Banc		75,000		
Llogi a HP		36,000		
			126,000	<b>Cyfrifoldebau presennol</b>
Benthyciadau		50,000		
Morgeisi		0		
			50,000	<b>Cyfrifoldebau hir dymor</b>
			176,000	<b>CYFANSWM CYFRIFOLDEBAU</b>
			1,152,535	<b>GWERTH NET</b>
<b><u>Cymharebau Allweddol</u></b>				
<b>% Ecwiti</b>	<b>87%</b>	<b>Targed &gt;70% ar gyfer perchen-feddianwyr</b>		
		<b>Targed &gt;50% i denantiaid</b>		
<b>Cymhareb Hylifedd</b>	<b>0.04</b>	<b>Targed &gt;1</b>	30,000	<b>ENNILLION (ee cyfrifon treth)</b>
<b>Enillion ar gyfalaf Tenantiaid</b>	<b>11%</b>	<b>Targed &gt;10%</b>		
<b>Enillion ar Ecwiti</b>	<b>3%</b>	<b>Targed &gt;3%</b>		



Nid yw cyfrifon treth nodweddiadol yn cynnwys cyfriflen llif arian parod, na defnydd arian. Yn ffodus, gellir olrhain cryfder llif arian parod fferm trwy edrych ar fantolen yn y cyfrifon treth dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae gan fferm gyda phroblemau llif arian parod:

- Gredydwy'r a dyledwy'r cynyddol
- Falans banc sy'n dirywio.
- Broblemau wrth ad-dalu benthyciadau ac arian.

Mae gan fferm sydd â llif arian cryf:

- Nifer isel o gredydwy'r.
- Falans banc sy'n gwella.
- Allu i dalu dyledion.
- Arian wrth gefn i'w gasglu neu i'w fuddsoddi.

Felly, trwy ddadansoddi cyfrifon treth diweddar, llunio mantolen gywir sy'n seiliedig ar werthoedd cyfredol y farchnad, a gwirio cyfriflenni banc misol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gellir ateb y cwestiynau allweddol canlynol:

- Beth yw gwerth net y busnes?
- Beth yw canran yr ecwiti?
- Maint y benthyciadau a sut maent yn cael eu strwythuro?
- A yw'r gorddrafft banc (a chredydwy'r) wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf?
- P'un ai ydi dyledion caled (y gorddrafft isaf bob blwyddyn) yn gwaethygu flwyddyn ar ôl blwyddyn?

Ond byddwch yn wyladwrus, mae mantolen yn dangos "cipolwg" o fusnes ar un diwrnod mewn blwyddyn. Ar ffermydd â'r yn benodol, gall benthyciadau tymhorol amrywio'n sylweddol. Hefyd, nid yw mantolen fferm fel arfer yn cynnwys asedau personol partneriaid (e.e. pensiynau, cyfranddaliadau ac asedau oddi ar y fferm megis eiddo).



### 2.2.4 Rhoi trefn iechyd y busnes

Ar ôl dadansoddi'r cyfrifon, rhowch drefn ar iechyd ariannol cyfan y busnes trwy ddefnyddio'r rhestr wirio isod.

Busnes cryf	<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn cyflawni proffidioldeb da</li><li>• Yn gallu talu am dyfiant heb fenthyg</li><li>• Yn cwrdd ag anghenion ariannol o ddydd i ddydd</li><li>• Yn cynilo arian dros ben</li></ul>
Busnes diogel	<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn cyflawni elw da</li><li>• Ond mae angen benthyg i dalu am dyfiant</li></ul>
Busnes anniogel	<ul style="list-style-type: none"><li>• Nid yw'n cwrdd ag anghenion arian parod o'r elw</li><li>• Benthyciadau yn cynyddu'n raddol</li><li>• Ddim yn buddsoddi llawer mewn busnes</li></ul>
Problem busnes difrifol	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ddim yn gwneud llawer o elw</li><li>• Codiad cynyddol mewn benthyciadau</li><li>• Dim buddsoddiad</li></ul>
Problem busnes difrifol iawn	<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn dioddef colledion parhaus</li><li>• Lefel uchel a chynyddol o ddyled</li><li>• Methu talu biliau pan yn ddyledus</li></ul>



### 2.2.5 PAC a chefnogaeth arall

Mae'r hen Daliad Sengl hanesyddol yn newid yn llwyr draw i system Taliad Sylfaenol (BPS) sy'n seiliedig ar ardal rhwng 2015 a 2019. Defnyddiwch adnodd gyfrifo Llywodraeth Cymru i amcangyfrif sut fydd taliad cefnogaeth ddatgysylltiedig y fferm yn newid dros y pum mlynedd nesaf.

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/schemes/basic-payment-scheme/basic-payment-scheme-payment-calculator/?skip=1&lang=cy>

Manylion y cynllun	2015	2016	2017	2018	2019
Incwm masnachu <ul style="list-style-type: none"><li>• Cynllun Taliad Sylfaenol</li><li>• Glastir</li><li>• Arall</li></ul>					
<b>Cyfanswm Incwm Masnachu</b>					
Grant cyfalaf <ul style="list-style-type: none"><li>• Cynllun Taliad Sylfaenol</li><li>• Glastir</li><li>• Arall</li></ul>					
<b>Cyfanswm Grant Cyfalaf</b>					
<b>Sylwadau</b>					



## 2.3 Asesiad risg

Mae busnesau fferm yn agored i bum math o risg; cynnyrch, pris, cyfreithiol, dynol ac ariannol.

Mae ffermio yn agored iawn i risg cynhyrchiant oherwydd natur fympwyol gweithio gyda'r tywydd ac anifeiliaid. Bydd cyflawni cynnyrch ac ansawdd ar lefel uchel yn hanfodol i berfformiad cyffredinol yn y dyfodol. Mae prisiau wedi dod yn fwy cyfnewidiol dros y 10 mlynedd diwethaf wrth i adnoddau cefnogi leihau, gan roi agoriad i ffermwyr Cymru at farchnadoedd nwyddau byd eang. Bydd sylw at risgiau cyfreithiol neu sefydliadol hefyd yn bwysig. Gallai methiant i gwrdd â gofynion traws-gydymffurfiaeth hefyd beryglu'r Cynllun Taliad Sylfaenol ac incwm grant arall. Hefyd, gall diffyg ewyllys wneud sefyllfa drist hyd yn oed yn waeth.

Mae rhannu risg i gategorïau cyfleus yn ddefnyddiol wrth ddiffinio risg. Ond mae'n rhaid pwysleisio mai'r risg allweddol sy'n wynebu busnes y fferm yw'r un ariannol. Mae cynnyrch gwael er enghraifft yn cael ei adlewyrchu yn yr elw terfynol. Os yw cynnyrch gwael yn broblem barhaus, bydd angen i fenthyciadau gynyddu er mwyn dod â dau ben llinyn ynghyd. Wrth gwrs, gall cynyddu'r gorddrafft fod yn ymateb dros dro yn unig. Dylai rheolyddion hefyd nodi nad yw ffermwyr, fel derbynwyr pris, yn gallu trosglwyddo costau cydymffurfiaeth yn eu blaen.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y prif fathau o risg, enghreifftiau o sut all y rhain effeithio busnes, yn ogystal â rhai o'r opsiynau sydd ar gael i reoli'r risgiau hyn.

Mathau o Risg	Enghreifftiau	Opsiynau ar gyfer lleihau risg
Cynnyrch	<ul style="list-style-type: none"><li>Tywydd cynhaeaf anodd ei ragweld</li><li>Achosion o afiechyd</li><li>Geneteg wael</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Cynyddu amrywiaeth y mentrau</li><li>Cynllun iechyd anifeiliaid a bioddiogelwch</li><li>Defnyddio EBV i ddewis hyrddod/teirw</li></ul>
Pris	<ul style="list-style-type: none"><li>Pris grawn cyfnewidiol</li><li>Ansicrwydd mewn costau gwrtait</li><li>Prisiau stôr gwan</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Cronfeydd storio neu bris</li><li>Prynu ymlaen llaw</li><li>Pesgi gwartheg</li></ul>
Cyfreithiol / Sefydliadol	<ul style="list-style-type: none"><li>Problemau cytundebol</li><li>Da byw sy'n crwydro</li><li>Erydiad pridd</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Holwch am gyngor proffesiynol cyn arwyddo</li><li>Yswiriant atebolrwydd cyffredinol</li><li>Hau cnydau gorchudd dros y gaeaf</li></ul>
Dynol	<ul style="list-style-type: none"><li>Torri ffêr</li><li>Marwolaeth partner</li><li>Problemau staff</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Yswiriant damwain neu salwch personol</li><li>Cynllun olyniaeth (gan gynnwys ewyllys)</li><li>Cytundeb cyflogaeth ffurfiol</li></ul>
Ariannol	<ul style="list-style-type: none"><li>Benthyciadau mawr</li><li>Cyfraddau llog ar gynnydd</li><li>Lefel isel o hylifedd</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Gwerthu asedau dros ben i leihau dyled</li><li>Sefydlu cyfraddau</li><li>Gwaith oddi ar y fferm</li></ul>

Mae rheolaeth risg effeithiol yn golygu cymryd golwg drefnus ar lunio cynllun, cyn gweithredu a monitro'r cynllun hwnnw.



## 3. I le yr hoffwn i fynd?

### 3.1 Nodau ac amcanion

Ni ddylid drysu rhwng nodau ac amcanion. Mae nodau i fod i gynnig ffocws tymor hir, tra bod amcanion ar sail tymor llawer byrrach, a thrwy eu cyflawni, gallant eich cynorthwyo i gyrraedd eich nodau hir dymor. Er bod nodau'n ddisgrifiadol (e.e. " i ddyblu maint y fferm"; neu, "i roi cyfle i fy mhlant ffermio"), dylai amcanion fod yn seiliedig ar rifau gwirioneddol sydd yn;

**S – Penodol [Smart]**

**M – Mesuardwy [Measurable]**

**A – Cyrraeddadwy [Attainable]**

**R – Realistig [Realistic]**

**T – Amserol [Timely]**

Mae amcanion SMART yn darparu'r camau ar gyfer cadw busnes ar y trywydd iawn, ac maent yn ganolog i gynlluniau gweithredu da, a fydd yn cael eu trafod yn y rhan olaf.

Rhestrwch nodau hir dymor y busnes (dim mwy na thri):	
1.	
2.	
3.	

### 3.2 Dadansoddiad o'r farchnad a chystadleuwyr

Nid yw cynlluniau busnes strategol ffermydd bob amser yn cynnwys dadansoddiad o'r farchnad oni bai ei fod yn edrych ar bosibilrwydd rhyw fath o brosiect arallgyfeirio. Hyd yn oed ar gyfer cynhyrchion fferm traddodiadol megis cig oen neu loi magu, mae'n bwysig i "edrych ar eich busnes o safbwynt y cwsmer" (e.e. defnyddiwr y biff, yn ogystal â'r rhai sy'n pesgi eich gwartheg stôr) a "chymharu gyda'r cystadleuwyr" (e.e. effaith gwerth is ar gyfer doler Seland Newydd ar ba mor gystadleuol yw eu hallforion cig oen). Bryd hynny yn unig y gellir sefydlu'r system fferm i gynhyrchu'r hyn y mae'r farchnad ei angen.

Ar wahân i gyfryngau'r diwydiant ffermio, mae adroddiadau'r farchnad a dadansoddiad o brif farchnadoedd fferm ar gael ar wefannau megis HCC ac AHDB Dairy, ac mae digwyddiadau'n cael eu cynnal gan Cyswllt Ffermio. Mae hefyd gwybodaeth gefndirol dal ynglŷn â'r farchnad ar gyfer mentrau arallgyfeirio ar gael ar y we.

**Sylwadau**



### 3.3 Dadansoddiad SWOT

Ar un ochr o'r ddalen, dylech erbyn hyn fod â rhestr gryno o'ch cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau. Er enghraifft;

<b>Strengths – Cryfderau (Mewnol)</b>	<b>Weaknesses – Gwendidau (Mewnol)</b>
Gwerth net da (87% ecwiti) Benthyciadau cyfyngedig Graddfa Stoc bridio gyda statws uchel o ran iechyd Bwthyn fferm dros ben Cydbwysedd da o ansawdd tir	Elw cyn dibrisiant < anghenion arian parod Gorddrafft 1/3 yn uwch mewn dwy flynedd Costau sefydlog ar yr ochr uwch GM defaid yn llai na'r cyfartaledd Capasiti adeiladau'n dynn Angen adnewyddu storfeydd slyri Pellter tuag at floc o dir ar y cyrion
<b>Opportunities – Cyfleoedd (Allanol)</b>	<b>Threats – Bygythiadau (Allanol)</b>
Fferm cymydog ar werth (ehangu) EID Gwneud defnydd gwell o Glastir Rheolaeth pori cylchdro Newid brîd gwartheg	Diwygiad CAP (llai o Gynllun Taliad Sylfaenol) Digwyddiad llygredd £ cryfach Prisiau cyfnewidiol Clun Dad (mewnbwn ffisegol at y dyfodol) Gwerthu fferm y cymydog i rywun arall

Erbyn hyn, dylai opsiynau a fyddai'n cyflawni nodau hir dymor y busnes yn dechrau dod i'r golwg. Nodwch y rhain yn y blwch cyfleoedd. Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu harchwilio yn y cam nesaf.





## 4. Beth yw'r ffordd orau o gyrraedd yno?

Erbyn hyn, dylai fod dealltwriaeth dda o'r busnes fferm (system) ynghyd â syniad clir o le mae'r ffermwr yn dymuno mynd (nodau hir dymor). Y cwestiwn yw: a fydd y system bresennol yn gallu cyflawni'r nodau hyn, neu a oes angen newid mewn modd syliweddol?

Yr opsiynau eang yw:

- Parhau gyda'r system bresennol (status quo).
- Gwella perfformiad y system bresennol.
- Newid y system yn sylweddol (gan gynnwys arallgyfeirio fferm)
- Newid graddfa (i fyny neu i lawr).
- Ymadael a gwneud rhywbeth arall.

Mae cyllidebu yn rhoi'r cyfle i brofi amrywiaeth o systemau posib i weld pa un sy'n fwyaf tebygol o gyflawni nodau hir dymor. Er na all unrhyw gyllidebu ragweld y dyfodol gydag unrhyw sicrwydd, gall leihau'r siawns o wneud penderfyniad gwael a mynd â'r busnes ar drywydd anghywir.

Beth yw'r profion?

Proffidioldeb	A fydd yr opsiwn yn cwrdd neu'n mynd tu hwnt i anghenion arian parod pan yn weithredol?
Dichonolrwydd (anghenion arian parod a chyalaf)	A yw'r llif arian parod yn ddigonol i dalu'r biliau dros y misoedd, neu hyd yn oed blynyddoedd cyn i'r opsiwn gael ei sefydlu'n llawn?  Os ddim, a fyddai benthyciwr yn cefnogi'r busnes yn ystod y cyfnod hwn?
Ymarferoldeb	A yw'r lefelau perfformiad a nodir yn y gyllideb yn gallu cael eu cyrraedd?  A yw adnoddau'r fferm, gan gynnwys y ffermwr, yn ddigonol?
Risg	Beth sy'n digwydd os yw lefelau perfformiad, prisiau a chostau yn llawer gwaeth neu well na'r hyn a ddisgwylir?  A fydd rheoliadau traws-gydymffurfio yn cael eu torri?
Hyblygrwydd	Faint o hyblygrwydd sydd yn y system? A oes adrannau penodol lle bod angen i bethau fynd yn gywir?
Personol	A oes ymroddiad llwyr ar gyfer yr opsiwn hwn gan bob un o'r partneriaid?



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

#### **4.1 Opsiwn 1 – Parhau gyda’r system bresennol**

Dechreuwch drwy gyllidebu’r system bresennol i ddarparu’r meincnod ar gyfer cymharu’r opsiynau eraill yn ei erbyn. Hynny yw, y system bresennol yw’r opsiwn “heb newidiadau” a ellir ei gymharu gyda’r opsiynau “gyda newidiadau”.

Os yw cyllideb flynyddol yn cael ei gwblhau fel rhan o reolaeth fferm gyfredol, mae’r opsiwn ‘status quo’ eisoes ar gael. Ond nid yw’r mwyafrif o ffermwyr yn cwblhau cyllideb flynyddol, felly bydd angen cynhyrchu un er mwyn cael sylfaen gadarn.

I ffermwyr sydd heb brofiad neu hyder gyda’r math yma o gyllidebu, dylent gyflogi ymgynghorydd da. Y nod yw cynhyrchu cyllideb a ellir ei grynhoi i’r fformat canlynol, sy’n cynnwys enghraifft. Noder sut caiff elw gros ar bob mamog, buwch a phob hectar ei ddefnyddio i grynhoi cyfraniadau’r mentrau hyn i broffidioldeb.



## OPSIWN 1 – PARHAU GYDA'R SYSTEM BRESENNOL (yn seiliedig ar gyllideb 2015/2016)

<b>System:</b>	Ardal effeithiol sy'n cael ei ffermio	135 ha				
	System yn seiliedig ar:					
	- 60 buwch sugno blwydd oed yn cael eu gwerthu mewn arwerthiannau mis Ebrill					
	- Ddiadell o 600 mamog yn cynhyrchu ŵyn wedi'u pesgi					
	- Dyfu 6ha o haidd gaeaf at eu defnydd eu hunain					
	Unedau Pori Da Byw	150	neu	1.11	GLU/ha	
	Cyflogi staff achlysurol dros gyfnod ŵyna					
	Defnyddio contractwyr ar gyfer cynaeafu silwair yn unig					
	Nid oes angen gwariant cyfalaf					
				£	£	£/ha £/GL
<b>Cyllideb</b>	Adeiladau			0		U
<b>Cyfalaf:</b>	Isadeiledd, ffensio			0		
	<b>Cyfanswm Gwariant Cyfalaf</b>			<b>0</b>		
	Cost blynyddol (wedi'i ychwanegu at y rhent a'r llog)			<b>0</b>		
<b>Cyllideb</b>	Buches sugno	60 hd@ GM		300=	18,000	
<b>Masnach:</b>	Diadell	600 hd@ GM		35=	21,000	
	Haidd gaeaf	6 hd@ GM		450=	2,700	
	Incwm masnach arall (e.e. hawliau tramwy)				500	
	Incwm arallgyfeirio fferm				0	
	Taliad Sylfaenol				27,000	<b>200 180</b>
	Incwm grant Pillar 2 (Glastir)				5,100	
	<b>Cyfanswm Elw Gros</b>				<b>74,300</b>	<b>550 495</b>
	Llafur cyflogedig				1,200	9 8
	Pŵer a pheiriannau				25,000	185 167
	Gorbenion				13,500	100 90
	Dibrisiant				18,000	133 120
	Rhent a llog				6,500	48 43
	<b>Costau sefydlog</b>				<b>64,200</b>	476 428
	<b>Elw Net</b>				<b>10,100</b>	<b>75 67</b>
	Wedi'i ychwanegu yn ôl:					
	Dibrisiant				18,000	
	<b>Elw net cyn dibrisiant</b>				<b>28,100</b>	<b>208 187</b>
	I gyflenwi:					
	Tyniadau				25,000	
	Buddsoddiad mewn eiddo				4,000	
	Buddsoddiad peiriannau				16,000	
	<b>Cyfanswm Anghenion Arian Parod</b>				<b>45,000</b>	<b>333 300</b>
	<b>Gwarged/Diffyg ariannol</b>				<b>-16,900</b>	<b>-125 -113</b>



Dylai'r gyllideb ddangos proffidioldeb parhau gyda'r system bresennol yn seiliedig ar amcangyfrifon realistig o berfformiad, prisiau, cymorthdaliadau a chostau. Beth yw'r cwestiynau allweddol i'w holi?

- A yw'r system yn debygol o wneud digon o elw i fodloni anghenion arian parod?
- Os nad, beth yw'r rheswm sydd wrth wraidd y bwlch? Dylai fod yn gymharol amlwg o ystyried dadansoddiad blaenorol o berfformiad diweddar.
  - Cyfanswm elw gros yn rhy isel?
    - Perfformiad bob pen (e.e. % wyna isel)?
    - Gormod o bori tymhorol drud?
    - Cyfradd stocio?
    - Cydbwysedd mentrau?
    - Diffyg graddfa?
    - Lleihad mawr mewn Cynllun Taliad Sylfaenol o ganlyniad i ddiwygiad CAP / Cyfradd gyfnewid is?
  - Costau sefydlog yn rhy uchel?
    - System cost uchel (sefydlog)?
    - Gormod o lafur wedi'i dalu amdano a pheiriannau?
    - Dim digon o reolaeth dros wariant gorbenion (e.e. yswiriant)?
    - Cost llog uchel o ganlyniad i fenthyciadau mawr?
  - Anghenion arian parod yn rhy uchel?
    - Yn gaeth i ad-daliadau dyled mawr?
    - Gwario gormod ar beiriannau?
    - Statws masnachu ddim yn effeithlon o ran trethi?
- A fydd pwysau ar orddrafft y banc? Pryd fydd hyn yn debygol?  
Nid yw amcangyfrif yr effaith ar falans y banc yn gofyn am gyllideb llif arian parod ffurfiol. Cofiwch, mae'n well cwblhau adolygiad eang, sydyn o'r opsiynau sydd ar gael yn y lle cyntaf. Byddwn yn edrych ar yr opsiynau o ddewis mewn mwy o fanylder yn nes ymlaen, yn enwedig os oes angen benthycio arian.
- Pa mor ymatebol yw proffidioldeb a llif arian parod i wahanol lefelau o berfformiad, prisiau, cymorthdaliadau a chostau? Er enghraifft;
  - Prisiau wyna a lloï 20% yn llai (ac yn fwy) i ddangos effaith newidiadau posib ym mhrisiau'r farchnad a phwysau'r stoc sydd ar gael i'w gwerthu (e.e. wyna gwael, afiechydon).
  - Effaith cyfradd newid cyfnewidiol ar y Cynllun Taliad Sylfaenol.
  - Effaith ar gostau a pherfformiad os yw peiriant allweddol yn torri ar ddechrau'r cynhaeaf.

Na yw'r ateb yn yr enghraifft hon - mae'n annhebygol y bydd y status quo yn ddigonol. Y cam nesaf felly yw edrych ar gostau opsiynau eraill. Wrth gwrs, mewn nifer o achosion, gallai proffidioldeb fod



yn ddigon i gyflenwi anghenion arian parod, ond bydd angen parhau i gyllidebu opsiynau eraill os yw busnesau o'r fath eisiau edrych ar newidiadau posib i gyflawni nodau tymor hir megis cynyddu maint y fferm neu leihau'r bil dreth! Yn wir, mae busnesau llwyddiannus yn dueddol o lwyddo o ganlyniad i gwblhau cynllun strategol fel rhan o awydd greddfoll i wella'n barhaus.

Yn ein henghraifft, mae'r gyllideb yn awgrymu bod proffidoldeb y ffermwr yn debygol o fod yn ôl ar lefelau blaenorol o ganlyniad i brisiau wŷyn is. Er bod y ffermwr yn gallu lleihau ei dyniadau i allu dod â dau ben llinyn ynghyd, y dewis gorau yw edrych ar opsiynau i gynyddu proffidoldeb.

## 4.2 Cyllidebu'r dewisiadau eraill

Wedi chi sefydlu'r ffon fesur, bydd angen i chi gyllidebu'r dewisiadau eraill ar yr un sail; hynny yw, pan fydd yn gwbl weithredol. Hyd yn oed os yw'r newidiadau'n cymryd tair blynedd i'w gweithredu'n llawn, bydd angen i'r opsiwn gael ei gyllidebu pan fo wedi ei sefydlu, ond ar gostau a phrisiau presennol. Cofiwch, ar hyn o bryd, y nod yw cael syniad ynglŷn â'r opsiynau eraill sy'n fwyaf tebygol o lwyddo. Bydd yr opsiynau a ddewisir yn nodweddiadol yn cael eu hystyried mewn manylder pellach, yn enwedig os yw eu hariannu'n ddibynnol ar gymorth gan eich banc.

Gan ddychwelyd at ein henghraifft, mae'r ffermwr wedi nodi nifer o opsiynau i'w hystyried ymhellach.

<b>Opsiwn</b>	<b>Prif newidiadau</b>
Parhau gyda'r system bresennol	<ul style="list-style-type: none"><li>• Dim</li></ul>
Gwella'r system bresennol	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cynyddu perfformiad defaid i'r traean uchaf</li></ul>
Newid y system bresennol (gan gynnwys arallgyfeirio fferm)	<ul style="list-style-type: none"><li>• Pesgi lloi</li><li>• Lleihau maint y ddiadell</li><li>• Lleihau grym peiriannau</li></ul>
Cynyddu (neu leihau i gynnwys gwaith oddi ar y fferm)	<ul style="list-style-type: none"><li>• Prynu fferm 80ha gyfagos (gan wasgaru costau sefydlog presennol dros ardal fwy)</li></ul>
Gadael	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ddim yn cael ei ystyried</li></ul>

Sylwer bod y newidiadau'n mynd yn fwy wrth i chi fynd drwy'r opsiynau. Hynny yw, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n naturiol i edrych ar y newidiadau rhwyddaf yn y lle cyntaf. Gallai gwella perfformiad y system bresennol fod yn ddigon i godi proffidoldeb i'r lefel angenrheidiol. Hefyd, nid yw'r opsiynau'n gyfyngedig (e.e. gellir cynyddu perfformiad defaid yn ogystal â newid maint y ddiadell yn ei gyfanrwydd). Mae edrych ar bob un yn ei dro fodd bynnag yn llai dryslyd na chyllidebu ar gyfer opsiwn gyda nifer o newidiadau.



### 4.2.1 Opsiwn 2 – Gwella'r system bresennol

Mae dadansoddiad o wraidd y broblem ar y ddiadell wedi dangos bod nifer yr ŵyn sy'n cael eu magu (h.y. nifer a werthwyd/gadwyd wedi'i rannu gyda'r nifer gafodd eu troi at yr hwrdd) yn llawer is na'r hyn a gyflawnir gan ffermwyr da byw ucheldir ar y traean uchaf (135% cf. 155%). Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol eraill ar gyfer y ddiadell yn debyg. Mae cyllideb rhannol syml (h.y. sydd yn edrych ar newidiadau ymylol yn unig) yn awgrymu y bydd proffidioldeb yn newid fel a ganlyn:

<p><b>Incwm masnachu ychwanegol</b></p> <p>600 mamog @ 155% = 930 o ŵyn 600 mamog @ 135% = 810 o ŵyn Ychwanegol = 120 o ŵyn</p> <p>Gwerthiant ŵyn ychwanegol @ £60 gros = £7,200</p>	<p><b>Incwm rhagweladwy</b></p>
<p><b>Costau masnach wedi eu harbed</b></p>	<p><b>Costau masnach ychwanegol</b></p> <p>Gwrtaith ychwanegol, 1t @ £300 = £300 Dwysfwydydd ychwanegol, 2t @ 200 = £400 Milfeddyg a meddyginiaeth ychwanegol, 120 @ £1 = £120 Didyniadau a chludiant, 120 @ £4 = £480 Ychwanegol = £1,280</p>
<p>Cyfanswm £7,200</p>	<p>Cyfanswm £1,280</p>
<p><b>Elw Ychwanegol = £5,920</b> <b>Neu gynnydd mewn elw gros mamog o £9.87</b></p>	<p><b>Cynnydd mewn proffidioldeb cyfan o £10,100 i £16,020) sydd yn dal i fod yn rhy isel.</b></p>
<p><b>Beth am y profion eraill?</b></p>	
<p>Dichonolrwydd (cyfalaf a llif arian parod)</p>	<p>Nid oes angen buddsoddiad cyfalaf. Ni fydd prynu gwrtaith a dwysfwydydd ychwanegol yn achosi problem cyfalaf gweithio yn y gwanwyn. Ond tybiwch y bydd angen cymryd ychydig flynyddoedd i gynyddu gwerthiannau ŵyn yn llwyr, felly bydd llif arian parod blynyddol yn gwella dros ychydig flynyddoedd.</p> <p>Fodd bynnag, yn seiliedig ar y prisiau a chostau disgwylidig, mae proffidioldeb yn dal i fod yn annhebygol o fod yn ddigonol ar gyfer yr anghenion arian parod.</p>
<p>Ymarferoldeb</p>	<p>Wedi adnabod y newidiadau hwsmonaeth angenrheidiol i gynyddu canran ŵyna trwy gymryd rhan mewn grŵp trafod Cyswllt Ffermio. Nid yw'r gyfradd stocio'n cyfyngu. Felly, mae'n hyderus ei fod yn gallu</p>



	cyflawni cynnydd llwyr mewn dau dymor.
Risg	Agored i'r risg o brisiau wŷn is oherwydd natur nwyddau'r farchnad ddefaid. Ond risg ariannol isel i'r busnes o ystyried gwariant cychwynnol. Y prif risg yw sicrhau bod y ddiadell yn cael eu bwydo'n gywir yn ystod y cyfnod hyd at wŷna.
Hyblygrwydd	Mae lle ychwanegol ar gael yn y siediau wŷna a llafur i ymdopi gydag wŷn ychwanegol.
Personol	Gydag ymrwymiad llawn y ffermwr a'r teulu.
<b>Casgliad</b>	<b>Werth ei ddilyn, ond nid yw'n ddigonol ar ei ben ei hun.</b>

Noder: Mae traws-gydymffurfiaeth yn rhan o fwyafrif y profion uchod (e.e. bydd canran wŷna cynyddol yn gofyn am fwydo ychwanegol ar ddiwedd y beichiogrwydd ac ar ddechrau'r cyfnod llaetha i ymateb i ofynion lles anifeiliaid).

### 4.2.2 Opsiwn 3 – Newid y system bresennol

Mae'r ffermwr yn meddwl y byddai pesgi ei 55 llo yn 20-24 mis oed yn cynyddu elw (ar hyn o bryd mae'n eu gwerthu mewn arwerthiannau gwanwyn yn flwydd oed). Fodd bynnag, mae'n tybio y byddai angen lleihad o 100 yn y ddiadell (i 500 mamog) o ganlyniad i'r borfa a'r silwair ychwanegol sydd ei angen gan y gwartheg. Gan nad oes lle mewn siediau gartref, gallai rentu sied gan gymydog sydd wedi ymddeol yn rhannol dros gyfnod pesgi'r gaeaf. Mae hefyd wedi canfod cyfleoedd i leihau ei gostau peiriannau. Unwaith eto, mae cyllideb rannol yn cael ei gwblhau i helpu gyda'r broses o ystyried y goblygiadau ar gyfer proffidioldeb (nodwch sut mae elw gros y fenter yn cael eu defnyddio i grynhoi'r gyllideb).

<b>Incwm masnachu ychwanegol</b> 55 buwch @ GM o £200 = £11,000	<b>Incwm rhagweladwy</b> 100 mamog @ GM o £35 = £3,500
<b>Costau masnach wedi eu harbed</b>  Costau peiriannau wedi eu harbed = £3,000 Llai i gyfalaf gwaith (llog) ar gyfer y ddiadell = £540  Ychwanegol = £3,540	<b>Costau masnach ychwanegol</b>  Rhentu sied = £1,000 Costau tanwydd ychwanegol = £500 Llai o gyfalaf gwaith (llog) ar gyfer y gwartheg = £550  Ychwanegol = £2,050
Cyfanswm £14,540	Cyfanswm £5,550
<b>Elw Ychwanegol = £8,990</b>	<b>Proffidioldeb cyfan bron yn dyblu (o £10,100 i £19,090). Ond nid yw'n dal i fod yn ddigon i fodloni gofynion arian parod</b>



<b>A'r profion eraill?</b>	
Dichonolrwydd (cyfalaf a llif arian parod)	<p>Gwelliant yn y llif arian parod cychwynnol o ganlyniad i werthu mamogiaid magu. Fodd bynnag mae cadw gwartheg ifanc ym 8-12 mis ychwanegol a lleihad yn nifer yr ŵyn sy'n cael eu gwerthu drwy gydol yr haf ar' hydref yn fwy na gwneud iawn am hynny.</p> <p>Heb argaeledd sied cymydog cyfagos, dim ond wrth brynu sied newydd fydd yr opsiwn hwn yn bosib. Byddai sied newydd werth £60,000 gyda morgais dros 20 mlynedd ar 7% yn costio £5,640 yn flynyddol (cyfalaf a llog), gan wneud yr opsiwn yn llai deniadol.</p>
Ymarferoldeb	<p>Mae'r fferm o ran natur yn fferm fagu yn hytrach na phesgi gwartheg, felly nid yw'n meddu ar fanteision naturiol fferm besgi tir is. Bydd angen i'r ffermwr hefyd gael cymorth gan brynwr lleol ynglŷn ag asesu pryd fydd anifail yn barod i'w ladd. Mae'r fferm gyfagos yn agos iawn felly nid oes amser maith yn cael ei golli yn teithio. Ond bydd y ffermwr cyfagos yn cael mantais o'r tail sy'n cael ei adael ar ôl a bydd angen cynllunio manwl ar y system trin gwartheg i sicrhau diogelwch y ffermwr a'r anifail.</p>
Risg	<p>Mae prisiau gwartheg wedi'u pesgi wedi bod yn gyfnewidiol iawn dros y blynyddoedd diwethaf, felly gallai'r elw gros amrywio'n helaeth. Mae pesgi llwyddiannus hefyd yn ddibynnol ar wneud silwair o ansawdd uchel i gyflawni cyfraddau twf uchel ar y gost isaf. Gallai leihau'r risg drwy werthu bustych yn flwydd oed, a chadw heffrod sy'n pesgi'n haws ac yn gynt.</p>
Hyblygrwydd	<p>Dim tagfeydd amlwg o ran ymrwymadau amser. Er y gallai'r cyfnod gwerthu gwartheg gyd-fynd â'r tymor ŵyna, byddai'r ddiadell yn llai.</p>
Personol	<p>Ymrwymiad llawn y ffermwr a'r teulu.</p>
Casgliad	<p><b>Yn fwy proffidiol, ond yn debygol o fod yn fwy peryglus nag Opsiwn 2 (gwella perfformiad y ddiadell). Wrth gyfuno, gallai pesgi gwartheg gyda diadell lai sy'n perfformio'n well (500 @ £10GM/mamog ychwanegol = £5,000) gynyddu proffidioldeb o gymaint â £14,000. Gyda llai o anghenion arian parod o ganlyniad i lai o fuddsoddiad mewn peiriannau, gallai cyfuno opsiynau 2 a 3 weithio.</b></p>





### 4.2.3 Opsiwn 4 – Ehangu drwy brynu fferm gyfagos

Gallai'r ffermwr drws nesaf sydd wedi ymddeol yn rhannol ddymuno gwerthu 80ha o dir llwm drws nesaf (mae'n dymuno cadw'r daliad, 10ha a'r tŷ fferm), os yw'r pris yn iawn. Gallai cynnig o £400,000 fod yn ddigon i sicrhau'r fargen, ond byddai angen iddo gael ei ariannu'n llawn gan fenthyciad banc. Er y byddai un neu fwy o'r adeiladau'n parhau i fod ar gael i'w rhentu, mae ein ffermwr yn meddwl mai'r opsiwn orau fyddai i gadw'r system ffermio arfaethedig yn syml fel nad oes angen peiriannau ychwanegol. Felly bydd niferoedd y gwartheg yn aros yr un fath, gyda'r ddiadell yn dyblu mewn maint ac yn newid i system 'easicare' sy'n wyna tu allan fel arfer (h.y. wŷyn unigol a thripledi yn wyna dan do). Bydd hyn yn lleihau anghenion siediau a llafur, er y disgwylir perfformiad is i bob mamog. Mae'r cyfalaf angenrheidiol o'r banc yn dod at £460,000, i gynnwys prynu diadell o 600 mamog o oedrannau cymysg, a gwelliannau o ran triniaeth.

Mae'r effaith ar broffidioldeb unwaith eto'n cael ei asesu gyda chyllideb rannol yn erbyn y waelodlin Opsiwn 1 (heb newid).

<p><b>Incwm masnachu ychwanegol</b></p> <p><b>600 mamog @ GM o £30 = £18,000</b> <b>Cynllun Taliad Sylfaenol, 80ha @ £200 =</b> <b>£16,000</b></p> <p><b>Ychwanegol = £34,000</b></p>	<p><b>Incwm rhagweladwy</b></p> <p>600 mamog wreiddiol @ GM o £5 + £3,000</p>
<p><b>Costau masnach wedi eu harbed</b></p>	<p><b>Costau masnach ychwanegol</b></p> <p>Llafur achlysurol ychwanegol = £2,000 Costau tanwydd a pheiriannau ychwanegol = £1,500 Costau contractio ychwanegol £7,000 Llog @ 6% ar gyfartaledd dros 20 mlynedd = £17,020</p> <p>Ychwanegol = £27,520</p>
<p>Cyfanswm £34,000</p>	<p>Cyfanswm £30,520</p>
<p><b>Elw Ychwanegol = £3,480</b></p>	<p><b>Proffidioldeb cyfan felly does dim llawer wedi newid.</b></p>
<p><b>A'r profion eraill?</b></p>	
<p>Dichonolrwydd (cyfalaf a llif arian parod)</p>	<p>Mae'r benthyciad helaeth yn cynyddu'r anghenion arian parod yn sylweddol. Ar 6% dros gyfnod o 20%, bydd benthyciad ad-dalu yn costio £40,020 y flwyddyn. Ar gyfartaledd, mae £23,000 ohono'n gyfalaf a £17,020 yn log. Yn ymarferol, byddai llog yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r taliad blynyddol hwn yn ystod y blynyddoedd cynnar, sy'n ddefnyddiol o safbwynt treth. O ganlyniad, byddai anghenion arian parod hefyd yn cynyddu'n raddol wrth i'r benthyciad aeddfedu, gan olygu bod angen cynnydd tebyg mewn proffidioldeb. Byddai llif arian parod felly yn ymddangos yn anghynladwy o ystyried maint y benthyciad a gafodd ei gyllidebu,</p>



	hyd yn oed pe byddai tymor y benthyciad yn cael ei ymestyn i 25 mlynedd.
Ymarferoldeb	Nid yw symud o system ddefaid gonfensiynol i system 'easicare' yn rhwydd, gan ei fod yn gofyn am newid mawr mewn dulliau rheoli. A fydd y ffermwr yn gallu cyflawni? Hyd yn oed dan yr amodau gorau, gallai gymryd dwy i dair blynedd i sefydlu'r system newydd yn llawn.
Risg	Yn seiliedig ar brisiau, costau, cymorthdaliadau a pherfformiad ar y lefelau a ddisgwylir yn y gyllideb, mae cefnogaeth gan y banc yn annhebygol. Yn wir, yn seiliedig ar y Cynllun Taliadau Sylfaenol a all fod yn nes at £130 yn 2019, bydd y proffidioldeb yn is (er y bydd proffidioldeb Opsiwn 1 yn is o'r un swm). Pe byddai perfformiad defaid ar yr un lefel â'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni (£5 yn fwy, gydag elw o £35/mamog), byddai'r ddiadell yn ychwanegu £6,000 ychwanegol i elw net. Byddai angen codi elw gros i £40+ i wneud yr opsiwn yn ddeniadol. Fodd bynnag, mae'r tywydd yn ystod cyfnod ŵyna yn risg sylweddol o ystyried y byddai dros hanner y ddiadell yn ŵyna tu allan.
Hyblygrwydd	Gellir cyflawni ŵyna dan do confensiynol trwy amrywio dyddiadau ŵyna. Er hyn, gallai llwyth gwaith barhau i fod yn broblem sydd angen cymorth achlysurol ychwanegol. Yn ogystal, mae ŵyna dan do hefyd yn gallu peri problemau lles.
Personol	Mae'r ffermwr yn anghysurus gyda'r lefel hwn o fenthyg o ystyried y gwelliant posib mewn proffidioldeb a ragwelir.
<b>Casgliad</b>	<b>Nid yw'n opsiwn ymarferol os na ellir prynu'r tir am gost llawer is.</b>

### 4.3 Dewis yr opsiwn gorau

Wedi i chi edrych ar gostau ac edrych ar opsiynau amrywiol, mae'n bryd i benderfynu ar ba un i'w weithredu. Nid yw bob amser mor hawdd â hynny, gan ei fod yn dibynnu ar sut y mae pobl yn gwneud penderfyniadau. Fel unigolion, gallwn wneud penderfyniadau gwahanol iawn wrth wynebu'r un ffigyrau pendant, heb son am amrywiaeth o ffactorau yn ymwneud â theimladau. Pan fo penderfyniadau mawr o ran busnesau fferm yn ymwneud â sawl cenhedlaeth o aelodau teuluol, gall gwneud penderfyniadau lle bod pawb yn gytûn fod yn anodd iawn.

Gallai casglu pob dadansoddiad ynghyd ar un darn o bapur fod yn fanteisiol. Sut fydddech chi'n sgorio'r fferm enghreifftiol sy'n cael ei gyllidebu uchod?

	Opsiynau			
	1	2	3	4
Proffidioldeb				
Dichonolrwydd				
Ymarferoldeb				
Risg				
Hyblygrwydd				
Personol				
<b>Cyfanswm sgôr</b>				



Pan yn gyflawn, bydd blychau'n cynnwys ffigyrau penodol (e.e. amcan o broffidioldeb) a barn ansoddol (e.e. a yw'r ffermwr yn gyfforddus gyda dyled). Yn allweddol, efallai nad yr opsiwn a ddewiswyd yw'r un sy'n "addo"r elw gorau. Mae ymchwil yn dangos nad yw nifer o ffermwyr yn gwneud y mwyaf o elw, felly gan gymryd bod proffidioldeb yn ddigonol ar gyfer anghenion arian parod, mae'r opsiwn gorau yn aml o ganlyniad i feini prawf eraill (e.e. risg isel, yn well ganddynt wartheg na defaid).

Pe byddai'r dadansoddiad, yn ein henghraifft ni, yn dangos mai'r opsiwn gorau fyddai i brynu'r fferm gyfagos, byddai angen cynllun busnes ffurfiol i'r rheolwr banc i'w ystyried. Dylai cyfrifydd a chyfreithiwr y fferm hefyd fod ynghlwm. Yn nodweddiadol, mae'n cynnwys cynllun busnes ffurfiol wedi'i strwythuro fel yr enghraifft ganlynol:

<b>CYNNWYS</b>	
1. CRYNODEB WEITHREDOL .....	3
2. CYFLWYNIAD .....	4
3. CYNLLUN A GYNIGIR .....	4
3.1. DISGRIFIAD O'R CYNLLUN (Atodiad 1)	4
3.2. ADNODDAU PRESENNOL Y FFERMWR	5
3.3. ANGHENION CYFALAF	5
4. ELW AR ÔL SEFYDLU'N LAWN (ATODIADAU 2A & 2B)	6
5. RHAGOLYGNON AR GYFER BLWYDDYN 1	7
5.1. TROSOLWG	7
5.2. LLIF ARIAN (ATODIADAU 3C, 3D A 3E)	8
6. RHAGOLYGNON AR GYFER BLWYDDYN 2 .....	8
6.1. TROSOLWG	8
6.2. LLIF ARIAN (ATODIADAU 4A A 4B)	9
6.3. PROFFIDIOLDEB A MANTOLEN (ATODIADAU 4C, 4D A 4E)	9
7. CASGLIAD .....	9
<b>Atodiadau</b>	
1 – Manylion fferm newydd	
2a – Elw ar ôl sefydlu'n llawn	
2b – Elw gros menter – wedi'i sefydlu'n llawn	
3 – Rhagolygon ar gyfer blwyddyn 1	
4 – Rhagolygon ar gyfer blwyddyn 2	

Mae'r lefel angenrheidiol hwn o lunio cyllideb yn gyffredinol angen cymorth ymgynghorydd. Nid yn unig bod ymgynghorydd yn meddu ar y sgiliau a'r profiad i gwblhau cynllun busnes yn y ffurf gywir - bydd yr ymgynghorydd hefyd yn gofyn i'r ffermwr hefyd egluro, weithiau i addasu, ac i gyfiawnhau beth mae'n ei gynnig. O ganlyniad, mae gwell siawns i'r cynllun sicrhau cefnogaeth benthycwyr.



## 5. Sut i aros ar y trywydd iawn?

Wedi i chi ddewis opsiwn - y cynllun ar gyfer cyflawni amcanion hir dymor y busnes - y cam nesaf yw gweithredu'r cynllun hwnnw. Mae gormod o lawer o gynlluniau da yn methu o ganlyniad i weithredu gwael. Mae'r adran hon yn egluro sut i aros ar y trywydd iawn.

Cyn symud ymlaen fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio y gallai heriau neu gyfleoedd newydd godi ychydig wythnosau wedi newid mawr i'r busnes, gan sbarduno golwg strategol newydd ar yr opsiynau. Hynny yw, mae rheolaeth strategol yn broses barhaus. Yn wir, mae rheolaeth dda yn ymwneud â gwelliant parhaus.

### 5.1 Cynlluniau gweithredu

Mae cynllun gweithredu'n adnodd cryf a hyblyg. P'un ai ei bod yn bosib gweithredu'r cynllun dewisol o fewn blwyddyn, neu'n cymryd 10 mlynedd, bydd cynllun gweithredu da yn helpu i hwyluso pethau. Fel yr eglurwyd yn adran 3.1, dylai nodau hir dymor fod yn ddisgrifiadol, a dylai amcanion gynnwys rhifau a'r gweithgaredd angenrheidiol, gan bwy a phryd i gyflawni'r amcanion.

Yn ein enghraifft, mae'r ffermwr yn penderfynu gweithredu'r newidiadau a archiliwyd yn opsiynau 2 a 3. Gweler isod ran o'r cynllun gweithredu ar gyfer cynyddu elw gros o ddefaid.

Amcan	Gweithred	Gan bwy / pryd
Cynyddu'r canran sganio i 180%.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Diddyfnu ynghynt (100 diwrnod o ganol y cyfnod wyna)</li> <li>Adolygu cynllun iechyd defaid.</li> </ul>	Hunan (15 Gorffennaf). Hunan gyda milfeddyg (hwyr fis Gorffennaf).
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Anelu at gael sgôr cyflwr (BCS) o 3.5 cyn hwrdda. Bydd 20% gwaelod y ddiadell yn aml yn dod â'r canran sganio i lawr, felly sicrhewch bod y ddiadell i gyd ar o leiaf BCS3. Rhannwch y mamogiaid i gyflwr da (3.5), cyflwr gwael a'r rhai sy'n barod i'w lladd ychydig wythnosau wedi diddyfnu.</li> </ul>	Hunan (7 Awst).
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ewch drwy'r mamogiaid tenau bob ryw ychydig wythnosau gan dynnu mamogiaid cyflwr da allan.</li> </ul>	Hunan (diwedd Awst, dechrau Medi).
	<ul style="list-style-type: none"> <li>MOT hyrddod.</li> </ul>	Hunan (ddechrau Medi).
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Triniaeth llyngyr i unrhyw famogiaid tenau fis cyn hwrdda (cadwch lygad ar hesbinod).</li> </ul>	Hunan (ganol Medi).
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwiriwch ragolygon NADIS a llyngyr yr iau.</li> </ul>	Hunan / milfeddyg (Hydref).
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adeiladu gorchudd porfa drwy ddiwedd yr haf fel y gellir fflysio mamogiaid bythefnos cyn i'r hwrdd fynd o mewn, yn ogystal â sicrhau digon o fwyd drwy'r mis ganlynol. Gellir cyflawni hyn drwy arbed porfeydd o ddechrau Awst ymlaen drwy ddwyschau niferoedd stoc gyda llai o flaenoriaeth (e.e. mamogiaid cyflwr da) a gwaredu stoc (e.e. gwerth wyn, cyfnewid gwartheg, difa).</li> </ul>	Hunan (parhaus yn dilyn diddyfnu).
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal cyflwr corff drwy sganio.</li> </ul>	Hunan.
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Peidiwch â throï hesbinod at yr hwrdd, ond anelwch at darged o 45kg LWT erbyn hwrdda er mwyn sicrhau cyfnod glasged cynnar.</li> </ul>	Hunan (pwyso'n fisol ar ôl diddyfnu).



Gellir hefyd defnyddio cynlluniau gweithredu ar gyfnodau gwahanol o'r broses cynllunio strategol i osod blaenoriaethau a gwella cyfathrebu rhwng pob ochr i sicrhau fod y pethau pwysig yn cael eu cyflawni. Yn ein henghraifft, pe byddai'r opsiwn olaf (prynu'r fferm drws nesaf) wedi cael ei ddewis, gallai'r ffermwr fod wedi llunio'r cynllun gweithredu dros dro isod.

<b>Amcan</b>	<b>Gweithred</b>	<b>Gan bwy / pryd</b>
Holi am gymorth ariannol gan y banc (oddeutu £500k).	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cael barn cyfrifydd.</li><li>• Ffonio rheolwr banc.</li><li>• Ymchwilio i argaeledd a chost ymgynghorydd fferm i helpu i lunio cynllun busnes.</li><li>• Trafod goblygiadau olyniaeth gyda chyfreithiwr.</li><li>• Paratoi cynllun busnes drafft.</li><li>• Cwblhau'r cynllun busnes</li><li>• Cyflwyno'r cynllun i reolwr y banc.</li></ul>	Hunan (heddiw). Hunan (erbyn diwedd yr wythnos). Mab i ymchwilio drwy wefan Cyswllt Ffermio (erbyn diwedd yr wythnos). Hunan (erbyn diwedd yr wythnos). Ymweliad 1af gan ymgynghorydd (erbyn diwedd wythnos 3). 2 <sup>il</sup> ymweliad gan ymgynghorydd (diwedd wythnos 5). Hunan (erbyn diwedd wythnos 6).

## 5.2 Y gyllideb flynyddol

Llunio cyllideb flynyddol a'i fonitro yw'r ffordd orau o sicrhau eich bod yn aros ar y trywydd iawn tuag at eich nodau hir dymor. Mewn gwirionedd, mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys gosod targedau allweddol a phwyntiau gweithredu blynyddol a'u gwirio o dro i dro i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Mae cyllidebu blynyddol yn rhan o reolaeth busnes parhaus sy'n rhan o reolaeth dactegol.